


cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Fel eglwys efengylaidd Gymraeg yma yng Nghaerdydd rhown, yn naturiol iawn, le canolog i'r Efengyl neu'r newyddion da Cristnogol. Hanfod y neges honno yw bod Iesu Grist, mab Duw, wedi ei anfon gan Dduw i mewn i'r byd i achub neu waredu pechaduriaid rhag digofaint Duw yn erbyn eu drygioni. Cyflawnodd Crist y gwaith hwnnw drwy farw yn lle pechaduriaid ar groes Calfaria. Rhaid i ni, os ydym am dderbyn maddeuantabywyd tragwyddol, ymateb trwy edifarhau am ein pechod a chredu yn Iesu Grist.

Yn y rhifyn hwn o *Cwmpawd* cawn, yn ogystal â'r newyddion a'r cyhoeddiadau arferol, erthyglau sydd yn esbonio'r efengyl yma ymhellach, ynghyd ag erthyglau mwy ymarferol sydd yn sôn am sut mae rhai yn byw y bywyd Cristnogol. Un peth yw dod i ffydd gychwynnol yn Iesu Grist; peth arall yw byw y bywyd Cristnogol yng nghanol holl broblemau a

chymhlethdodau bywyd.

Rydym yn byw mewn dyddiau pryd mae llawer yn teimlo bod bywyd yn ddigon anodd a diystyr. Mae yna newyn a syched ysbrydol o'n cwmpas. Cawn fod pob math o syniadau a chrefyddau yn ceisio ein denu ac yn addo i ni atebion a chymorth yn wyneb yr anawsterau hyn. Ein bwriad ni yw cyhoeddi, fel y dywedodd Iesu Grist ei hun, 'Mi a ddeuthum fel y caent fywyd ac y caent ef yn helaethach.'

Diwedd y Gân?

Trystan Hallam

‘Diwedd y gân yw’r geiniog’. Rydym yn byw mewn dyddiau pryd mae’r gân, i lawer o bobl, ar fin dod i’w nodau olaf. Mae’r economi yn llanast, a dydyn ni ddim yn siarad am geiniog neu ddwy. Banciau yn chwalu, y farchnad dai yn gwegian, a’r cyfan yn ofid i bobl wrth feddwl am eu swyddi. Mae’r *credit crunch* wedi cyrraedd.

Dywed y Beibl fod gan bob un ohonom gyfrif (*account*) gwahanol. Nid cyfrif gyda *Barclays*, neu *NatWest*, ond cyfrif gyda Duw – Duw yr Un a’n creodd. Dydy’r Beibl ddim yn ceisio profi bodolaeth Duw – mae’n datgan yn eglur, fel ffaith, fod Duw yn bodoli a’i fod wedi creu pob dim. Mae llyfr cyntaf y Beibl, Genesis, yn agor â’r geiriau ‘Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a’r ddaear’.

Un funud fach! On’d ydyn ni’n byw yn yr unfed ganrif ar hugain? Rydyn ni wedi datblygu o’n storïau ysgol Sul diniwed. Does neb yn derbyn bellach mai Duw a greodd y byd!

Dydy’r ffaith bod rhywbeth yn amhoblogaidd ddim yn meddwl nad yw’n wir. Efallai nad ydw i’n hoffi’r ffaith bod biliau i’w talu bob mis, ond dyw hynny ddim yn golygu nad oes rhaid i mi eu talu!

Mae’r Beibl yn mynd yn ei flaen gan ddweud: ‘Dywed yr ynfyd yn ei galon. Nid oes Duw’. (Salm 14:1). Hynny yw, yn ôl y Salmydd, rydych yn wallgof os nad ydych yn credu yn Nuw! Ac os ydym yn onest, mae’n profiad ni yn cadarnhau hyn. Mae’r car newydd yn colli ei sglein yn gyflym. Rydym yn edrych ymlaen at y dyrchafiad nesaf yn y gwaith. Mae ymddeol yn swnio’n fêl i gyd. ‘Chi’n gwybod y teimlad! Dydyn ni byth yn cael ein digoni. Gallwn ganu gyda Mick Jagger a’r *Rolling Stones*, ‘I can’t get no satisfaction’. Efallai, mewn cymdeithas sy’n ei chyfrif ei hun yn ‘soffistigedig’, mai dim ond sibrwd y geiriau a wnawn ni – ond rydym yn dal i’w sibrwd: mae’n rhaid bod ‘na fwy na hyn! Mae’r gwacter yn ein bywydau yn atseinio nad ydym yn bobl annibynnol mewn gwirionedd,

ond ein bod ni yn hytrach yn bobl atebol – atebol i Dduw. Mae gennym ni gyfrif – gyda Duw! Dyna'n problem fwyaf, sef ein bod yn atebol i Dduw ein creawdwr. Dywed y Beibl wrthym fod Duw yn bur ac yn lân, a'i safonau'n wahanol iawn i'r rhai rydych chi a minnau'n fodlon eu derbyn.

Os ydych chi'n debyg i fi, fe wyddoch am y profiad o fod ar ddiet. Mae pob dim yn mynd yn iawn, ac yna rwy'n pasio siop y pobydd a dyna ble mae'r gacen siocled yn gwenu'n ddel arna i. Mae'r dyddiau o fwyta bisgedi *Ryvita* a chaws *Philadelphia Light* yn mynd yn angof – mae gwen y gacen yn ormod. Rwy'n methu cadw'r safon.

Efallai eich bod chi'n fwy llwyddiannus gyda'r busnes colli pwysau na fi – ac eto mae'n wir am bob un ohonom, mewn materion sy'n llawer mwy difrifol na cholli pwys neu ddau, ein bod yn methu cadw'r safon. Ond mae Duw yn wahanol. Edrychwch ar eiriau Salm 145:17 'Y mae'r Arglwydd yn gyfiawn yn ei holl fyrdd ac yn ffyddlon yn ei holl weithredoedd'. Mae Duw yn gyson, yn gwbl berffaith, a chan mai Duw sydd wedi ein creu rydym yn atebol i'w

safon. Sut mae'ch cyfrif chi o flaen y Duw perffaith?

Yn ein cymdeithas ni mae cymaint o *spin* yn cael ei roi ar bethau. Hynny yw, mae pobl yn ceisio troi sefyllfaoedd i edrych yn fwy ffafriol nag y maent mewn gwirionedd. Ond pan fydda i'n camu ar y dafol, wedi bwyta cacen siocled y pobydd, does dim modd rhoi *spin* ffafriol ar y pwysau! Mae'r Beibl am i ni wybod y gwirionedd amdanom ni ein hunain – rydym wedi torri safon Duw. Pechaduriaid: dyna ydyn ni, bob un ohonom, wrth natur. Gan fod Duw yn berffaith, yn gyfiawn, heb dro ynddo, mae'n rhaid iddo gosbi pechaduriaid. Dywed y Beibl yn glir mai uffern yw haeddiant pob un ohonom o flaen Duw perffaith.

Beth sydd wedi bod yn digwydd i'r banciau yn ddiweddar wrth iddynt wynebu'r sefyllfa economaidd ofnadwy? Mae'r llywodraeth, ac ambell fanc arall, wedi camu i mewn i gyda phecyn achub (*rescue package*). Mae Duw wedi trefnu ffordd i'n hachub ninnau rhag ei farn Ef. Camodd un i mewn i'n sefyllfa ni a thalu'r ddyled, y gosb rydym yn ei haeddu. Person, nid syniad; Person, nid strategaeth yw

ateb Duw i'n problem. Iesu Grist. Cymaint yw cariad Duw drosom, nes iddo anfon Ei Fab i'r byd er mwyn delio â'n problem fwyaf – ein pechod. Ble welwn ni Iesu Grist? Darllenwn am Iesu'r athro mawr. Darllenwn am Iesu, gŵr y gwyrthiau. Ond wedi'i hoelio ar groesbren a choron ddrain am ei ben – dyna ble y gwelwn Iesu'n gwneud ei waith mwyaf. Edrychwch ar eiriau'r Iesu ar y Groes: 'Fy Nuw, Fy Nuw pahan yw wyt wedi fy ngadael?' Roedd Iesu wedi ateb ei gwestiwn ei hun drwy gydol ei weinidogaeth. 'Myfi yw'r bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid'. Dyma un esiampl o eiriau'r Arglwydd Iesu yn y cyfnod cyn ei groeshoeliad. Gwyddai Iesu ei fod yn mynd i farw, a gwyddai ei fod yn gwneud hynny i dderbyn y gosb rydyn ni'n

ei haeddu am ein pechod. Duw y Mab yn derbyn ein cosb ninnau. Yr hyn y mae'r Beibl a'r Cristion yn tystio iddo yw bod y taliad a wnaeth Crist ar y groes yn ddigon. Wedi tridiau, atgyfododd yr Iesu'n brawf fod y taliad hwnnw'n ddigonol. Drwy ymddiried yn yr Iesu, mae sicrwydd y cawn ein derbyn, sicrwydd inni gael *credit* yn ein cyfrif gyda Duw.

Mae llyfr olaf y Beibl, llyfr y Datguddiad, yn sôn am gân sydd ddim yn gorffen – yn y nefoedd. Does dim angen cyfrif'r ceiniogau am fod yr Arglwydd Iesu wedi talu'r pris yn llawn i chi fod yn rhan o'r gân honno. Dywedodd Iesu: 'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystira i chi'.

llun: www.freeimages.co.uk



Sut mae Gwranddo

'Ystyriwch gan hynny sut yr ydych yn gwranddo' (Luc 8:18)

Petaen ni'n defnyddio cyfrifiannell i gyfrifo sawl pregeth yr ydym wedi ei chlywed ar hyd ein hoes hyd yma, mae'n siŵr y cawn ein syfrdanu. Ond sawl pregeth ydyn ni'n ei chofio? A pha effaith y mae'r pregethau hyn wedi ei chael arnom? Beth ddylai ein hagwedd fod wrth ddod at y bregeth ym mhob oedfa? Dyma rai pwyntiau bras a fydd, gobeithio, yn help i ni i gyd ymagweddu'n gywir.

•Yn ddisgwylgar

Pregeth yw Gair Duw yn cael ei fynegi a'i esbonio i ni. Bydden ni'n mynd yn eiddgar i glywed un o'n harwyr daearol yn cyflwyno neges bersonol i ni, ond dyma Dduw, ein crëwr a'n Tad nefol, yn dod â gair perthnasol i'n hunion gyflwr ni! Dylen ni fod yn gyffrous ac yn awyddus i glywed y bregeth. Ys gwn i beth fydd gan Dduw i'w ddweud wrthyf yr wythnos hon?

•Yn astud

Dyw canolbwyntio am gyfnod hir ddim yn hawdd. Ond er mwyn cymhwyso'r Gair yn gywir mae

angen i ni ddeall – a chofio – yr hyn sy'n cael ei ddweud. Dyma rai pwyntiau ymarferol:

– Mae dilyn y darn yn y Beibl, a dod o hyd i'r adrannau sy'n cael eu dyfynnu, yn gallu bod yn help i ffocysu'r meddwl. Wrth wneud hynny fe fyddwn hefyd yn gweithredu'r anogaeth sydd yn Actau 17:11, 'gan chwilio'r Ysgrythyrau beunydd i weld a oedd pethau fel yr oeddent hwy yn dweud.'

– Mae rhai yn teimlo bod ysgrifennu nodiadau yn gymorth. Does dim angen ysgrifennu popeth, ond efallai y byddech yn dymuno nodi rhywbeth sy'n eich taro'n arbennig, neu rywbeth yr hoffech gael esboniad pellach arno.

– Mae edrych ar y pregethwr wrth iddo siarad hefyd yn gallu bod yn help – os byddwch yn edrych arno fe, fyddwch chi ddim yn edrych ar bethau eraill a allai wneud i'ch meddwl grwydro.

•Wedi paratoi yn ymarferol

Mae amgylchiadau bywyd yn mynd yn drech na ni weithiau,

ar Bregeth?

ond os cyrhaeddwn yr oedfa yn hwyr ac yn frysiog ac yn flinedig, fyddwn ni ddim yn y cyflwr gorau i werthfawrogi'r bregeth. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth i amser mynd i'r gwely ac amser codi!

•Yn weddigar – cyn, yn ystod, ac ar ôl

Byddai'n beth da petaen ni'n gweddio am y pregethwr yn ystod yr wythnos, wrth iddo baratoi'r bregeth. Os yw'r bregeth yn rhan o gyfres, beth am geisio darllen y rhan a fydd yn cael ei hesbonio? Ar ddechrau'r oedfa, neu yn ystod y bore, gallwn weddio y bydd Duw yn nerthu'r pregethwr, yn ein helpu ni i wrando, ac yn siarad â phob aelod o'r gynulleidfa. Gallwn weddio yn ystod y bregeth hefyd - dros y pregethwr ei hun, dros wrandawyr sydd eto heb gredu ac am nerth i ni ein hunain i wrando ac i gymhwyso'r Gair.

•Yn ostyngedig

Mae'n hawdd syrthio i'r trap o feddwl bod pregeth yn anerchiad cyhoeddus i ni ei werthuso. Ond wrth wrando yn ostyngedig fe fyddwn ni'n fwy tebygol o ymateb yn gywir i'r Gair, a'i gymhwyso i'n

calonnau ni (nid i galon y person sy'n eistedd y tu cefn i ni!). Cofiw'n fod y pregethwr yn gwneud ei waith 'mewn gwendid ac ofn a chryndod mawr' (1 Corinthiaid 2:3). Cyfrwng yw'r pregethwr, ond Gair Duw yw'r peth pwysig.

•Ar ôl y bregeth

– Mae angen treulio bwyd i gael y maeth ohono. Felly beth am drafod cynnwys y bregeth â rhywun ar ôl yr oedfa ac ystyried beth rydych wedi ei ddysgu a sut y gallech gymhwyso hynny i'ch bywyd yn ystod yr wythnos?

– Ceisiwn atgoffa'n hunain o bwyntiau'r bregeth, gan ddarllen y darn unwaith eto, neu ddarllen y nodiadau.

– Credwn y Gair, a gweithredwn ar unrhyw beth y cawsom ein hargyhoeddi ohono. Cymhwyswn y Gair yn bersonol i'n calon ni.

– Diolchwch! Diolchwn i Dduw am siarad â ni yn y bregeth. A diolchwn hefyd i'r pregethwr am baratoi ac am ymdrechu er ein mwyn.

Gwydion Lewis

Gwersyll '08

Llion Marc

Bob haf cynhelir llawer o wersylloedd gwahanol ledled Prydain a phob un yn cynnig rhywbeth gwahanol (e.e. Yr Urdd a'i gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, gwersylloedd pêl droed, rygbi ayyb). Ers pedair blynedd rwyf wedi bod yn swyddog yng ngwersyll Mudiad Efengylaidd Cymru yn Quinta (ger Y Waun). Mae'n wersyll sy'n anelu at fod tipyn bach yn wahanol i'r norm, wrth gynnig cyfle i astudio gair Duw yn ogystal â gwneud y pethau 'arferol' sy'n digwydd mewn gwersylloedd eraill. Y nod yw cyflwyno Gair Duw mewn modd perthnasol i blant a phobl ifanc a hefyd rhoi'r cyfle iddynt i drafod ac addoli gyda'u cyfoedion.

Eleni roedd tua 40 o wersyllwyr 10-13 oed yng Ngwersyll Quinta; yn ystod yr un wythnos cynhaliwyd gwersyll tebyg ym Mryn y Groes, Y Bala (ar gyfer rhai 14-17 oed), a thrwy'r haf cafwyd nifer o wersylloedd i

wahanol grwpiau yng Ngholeg y Bala. Pob un â'r un bwriad o gyflwyno newyddion da yr Efengyl.

Gan fod y gwersyll yn digwydd yn ystod wythnos gynta'r gemau Olympaidd yn Beijing eleni, dyna oedd thema'r wythnos yn Quinta. Cafodd tri thîm y cyfle i greu eu gwlad eu hunain i'w chynrychioli yn y gemau (dyfeisio baner, anthem ayyb). Yn ogystal â chystadlu mewn nifer o gampau a chwaraeon gwahanol ar hyd yr wythnos, cafwyd sioe ffasiwn lwyddiannus i arddangos gwisg draddodiadol y gwledydd dychmygol, cwis blasu bwydydd o bedwar ban byd, cyfle i goginio, gwneud gwaith crefft, mynd ar dripiâu ar gamlas Llangollen, i siopa, sglefrio îâ, nofio a llawer o weithgareddau eraill.


Bob bore yn ei anerchiadau bu'r caplan, Gwydion Lewis, yn dilyn bywyd Daniel, sydd yn esiampl wych i bobl ifanc heddiw.

Quinta

Gwelsom sut y cafodd Daniel, pan oedd ond yn ei ardegau cynnar, ei gaethgludo i wlad estron lle bu'n rhaid iddo sefyll yn gryf dros ei Dduw. Er i'r bobl o'i gwmpas blygu ac addoli'r Ymerawdwr, gwrthododd Daniel wneud hynny. Parhaodd i addoli'r Duw byw, gan wrthod cwmpo i'r temtasiynau o'i gwmpas. Wrth astudio bywyd Daniel, cawsom weld beth oedd yn ysbrydoliaeth ac anogaeth iddo i gadw'n ffyddlon yn wyneb pob digwyddiad mewn bywyd,

hyd at ei henaint. Rhoddodd Daniel Dduw yn gyntaf bob tro, heb feddwl am ei lwyddiant na'i ddiogelwch ei hun.

Mae'r plant a fu yn y gwersyll bellach wedi dychwelyd i'r ysgol i sefyllfaoedd digon anodd. Gweddiwch y byddant, fel Daniel, yn cael nerth i sefyll yn gadarn dros eu Duw.



Bryn-y-Groes

Aled Lewis ac Owain James

Yn ystod gwyliau'r haf eleni aethon ni i wersyll Bryn-y-Groes yn y Bala. Hon oedd ein blwyddyn gyntaf yn y gwersyll hŷn, felly roedden ni'n dau yn nerfus y byddai'r plant mawr (Gerwyn) yn ein bwlio, fel sy'n digwydd ar foreau Sul! Ond ddigwyddodd hynny ddim, diolch byth, oherwydd amddiffynnodd Luned ni gyda'i crutches.


Yn anffodus bu'n rhaid i mi (Owain) deithio'r holl ffordd i'r Bala o Gaerdydd, a dydw i ddim yn hoff iawn o fysus a dweud y lleiaf! Roedd rhywun (Aled) yn ddigon ffodus i fynd yno o Aberystwyth a oedd yn llawer llai o daith. Cyrhaeddodd ni'n flinedig cyn hyd yn oed dechrau, ac roedden ni'n barod am ein swper . . . Roedd y bwyd yn flasus iawn drwy'r wythnos er nad oedd cweit digon ohono i fechgyn ifanc fel ni sy'n dal i dyfu, ac roedd ambell un o'r swogs (Emyr James) yn hela am fwyd o'r byrddau eraill bob cyfle a gâi!

Fore Sul dechreuodd Mark Thomas ar gyfres o anerchiadau ar Numeri 21. Aeth ef â ni ar daith ysbrydol trwy hanes y sarff bres. Oherwydd bod y darn yn weddol fyr, aeth drwyddo'n

ystyrlon a manwl, ac o ganlyniad cafwyd pregethau bendithiol iawn. Yn y prynhawniau cawsom astudiaethau gyda'n swogs.

Mae hyn yn gyfle i'r gwersyllwyr a'u swyddog rannu ar lefel fwy personol. Buon ni'n astudio'r epistol at y Galatiaid, ac er bod rhai ohonom wedi ffeindio'r llyfr yn sialens, cafwyd bendith fawr wrth geisio deall pethau fel y gyfraith a'r cyfamod.

Un diwrnod aethom ar drip i Gaer – i siopa i gadw'r merched a Dewi Morris yn hapus, tra aeth y bechgyn i McDonalds. Trwy'r wythnos chwaraeon ni lawer o gemau gwych, yn unigol ac o fewn ein grwpiau, sef Amazon.com, Coeden, Lygers a Blood diamond maes cgyrgi 2 (peidiwch â thrafferthu gofyn!). Os nad ydych wedi sylwi oddi wrth enwau'r grwpiau hyn, themâ'r wythnos oedd Jwngl. Bob nos byddai dau ddyn o'r enw Rupert (Emyr James) a Fuggen



(Owain Jones, nid James) yn rhoi newyddion y dydd i ni. Fuggen oedd ein ffefryn (sori Rupert). Doedden ni ddim wedi chwerthin gymaint ers amser.

Roedd y gemau brwnt yn llythrennol frwnt iawn. Erbyn y diwedd roeddem yn methu dweud pwy oedd pwy gan fod cymaint o flawd a mwd dros y gwersyllwyr i gyd. (A daeth y dillad adre i brofi hynny; diolch byth am beiriannau golchi! – Gol.)

Ar y dydd Gwener cawsom farbiciw hyfryd a phawb yn bwyta yn eu gwisg-ffansi jwngl. Rhaid cyfaddef bod rhai gwisgoedd yn well na'i gilydd! Gwisgais i (Owain) fel Ray Mears, gydag offer pwrpasol a neidr wenwynig. (Ha! Roedd yn wyrdd, yn feddal ac yn fflyffi! – Aled). A gwisgais i (Aled) fel bachgen o'r jwngl Y cyfan oedd hyn oedd paent ar fy wyneb a daliwr-cot fel boomerang; a dweud y gwir roedd braidd yn pathetic, i ddyfynnu Owain.

Yn y nos cawsom noson lawen a oedd yn llawen iawn. Roedd amryw o weithgareddau, gan gynnwys sgets ddoniol gan bob grŵp. Cafodd y Lygers gam, fodd bynnag, a nhw ddylai fod wedi ennill yn ôl Owain. Wedyn daeth y sialensiau torri record

byd. Torrodd Nathan (bachgen o Lanelli) record y byd am fwyta'r nifer mwyaf o siocledi Ferrero Rocher mewn munud! Wedyn aeth pawb i lawr at lyn Tegid i gael pizza hyfryd gyda'r nos, cyn mynd nôl i glywed canlyniadau'r grwpiau. Enillodd tîm Owain a daeth fy nhîm i yn olaf, ac rwy'n dal i gael fy atgoffa am hyn hyd heddiw.

Ar ôl y crio (gan Gerwyn yn benodol) bod y gwersyll wedi dod i ben, dechreuodd y daith hir adref. Roedd y patrwm ar y ffordd yn ôl yr un peth ag ar y ffordd i'r Bala – es i (Aled) bant yn Aberystwyth a gadael Owain i bwdu ar y bws am bum awr arall!

Hoffem ddiolch i Dafydd Cunningham a Heledd Job am arwain gwersyll mor wych, i Mark am bregethu ac i bob un o'r swogs am roi wythnos i helpu yn y gwersyll. Mae'r gwersyll yn fuddiol i ni bob blwyddyn. Mae'n hyfryd cael treulio amser gyda Cristnogion o'r un oedran â ni, a gallu rhannu problemau a sialensiau bywyd Cristion ifanc gyda'n gilydd.



Adolygiad

Emyr James

*Croes fy Arglwydd,
Gwynn Williams,
72 tt, £6.50, Gwasg Bryntirion*

Sail *Croes fy Arglwydd* yw pedwar anerchiad yn ystod Cynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru 2006. Canolbwyntia'r anerchiadau ar Rufeiniaid 3:21-26, ond, yng ngeiriau'r awdur, yr hyn mae'n ceisio ei wneud yw esbonio 'symylrwydd godidog efengyl Iesu Grist'.

Y darlun tywyll

Ni allwn werthfawrogi newyddion da yn iawn heb eu cymharu â'r drwg; mae'r da yn edrych ar ei orau yng ngoleuni'r drwg. Ceir esiampl o hyn ym mhob siop gemwaith trwy'r byd: caiff deiamwntiau eu harddangos ar gefndir du er mwyn i'w disgleirdeb gael ei amlygu.

Mae'r un peth yn wir am newyddion da yr efengyl Gristnogol. Mae'n rhaid inni yn gyntaf wynebu'r newyddion drwg. O edrych ar gyfraith Duw gwelwn yn glir ein bod ni wedi pechu. P'un ohonom sydd heb ddweud celwydd, neu feddwl yn gas am rywun, neu amharchu ei rieni. Rydym ni i gyd yn bechaduriaid ac o'r herwydd o dan ddigofaint Duw.

Goffenna'r bennod â darlun o lys barn. Yn y llys hwn mae'n gwbl amlwg i'r barnwr a'r rheithgor fod y person cyhuddedig yn euog. Yn wyneb y dystiolaeth yn ei erbyn y cyfan y gall yr amddiffynnydd ei wneud yw gostwng ei ben ac aros am y ddedfryd. Dyma lle mae'r bywyd Cristnogol yn dechrau go iawn – wrth inni weld ein stad, ein heuogrwydd o flaen Duw, a chydabod ein bod ni'n haeddu cosb.

Gobaith am achubiaeth

Wedi peintio'r darlun tywyll hwn daw Paul â ni at graidd yr efengyl â'r geiriau syfrdanol 'Ond yn awr.' Mae rhywbeth wedi newid – mae Iesu Grist wedi dod.

Pan ddaeth Iesu Grist i'r byd amlygwyd cyfiawnder Duw. Mewn llys gall dau beth ddigwydd. Y cyntaf yw fod y person cyhuddedig yn cael ei gyhoeddi'n euog: os bydd hyn yn digwydd yna dywedir fod y person yn gondemnedig. Ond petai'r gwrthwyneb yn digwydd, a'r person yn cael ei gyhoeddi'n ddieuog, mae wedi cael ei gyfiawnhau.

I'r pechadur mae cyfiawnhad yn golygu fod y Duw sy'n barnu yn ei gyhoeddi'n ddieuog. Petai barnwr yn y wlad hon yn cyhoeddi'n ddieuog

amddiffynnydd sydd yn amlwg yn euog – byddai pobl yn mynd yn wyllt. Ond dyna'r union beth mae Duw yn ei wneud. Dywed y Beibl y bydd Duw ar ddiwedd amser yn cyhoeddi tyrfa fawr yn ddieuog, ac yn gwneud hynny am un rheswm. Gras. Mae Duw yn raslon ac yn ein trin mewn ffordd well nag yr haeddwn.

Yr Iawn a dalwyd ar y groes

Weithiau mewn llys barn mae person yn talu dirwy ar ran rhywun arall. Talodd Iesu ein dirwy trosom ar y groes. Trwy farwolaeth Iesu cawn ein prynu o gaethiwed pechod. Ond mae yna air anghyfarwydd yn Rhufeiniaid 3 sef 'iawn'. Yn syml mae 'iawn' yn golygu cymodi neu heddychu dau berson. Ym mhob camwedd ceir trosedd, troseddwr, person y troseddwyd yn ei erbyn, a'r pris neu'r iawndal. Iesu Grist yw'r iawndal dros ein pechodau ni, er mwyn ein cymodi ni'r troseddwyr â'r Tad rydym wedi troseddu yn ei erbyn.

Wrth i'r Iesu farw ar y groes cymerodd arno Ef ei hun holl ganlyniadau ein pechodau. Dioddefodd yn gorfforol ac yn emosiynol; profodd euogrwydd ac unigrwydd; teimlodd lid a digofaint Duw yn ei erbyn. Ond wrth iddo farw mae'n rhoi bloedd fuddugoliaethus, 'Gorffennwyd' – talwyd y ddyled, ac wedi tridiau cyfododd yn ogoneddus, yn profi fod y gwaith wedi ei gflawni ac

bod bywyd i'w gael trwyddo Ef.

Cyfiawnhad trwy ffydd

Roedd marwolaeth Iesu Grist yn un ddirprwyol – bu farw fel na fyddai rhaid i ni gael ein cosbi am ein pechodau. Hyd yn oed os bydd rhywun yn talu dirwy drosodd, rydych chi dal wedi eich nodi fel un euog. Ond pan gawn ein cyfiawnhau gan Iesu Grist, mae'r euog yn cael ei gyhoeddi'n ddi-euog.

Sut y gallwn dderbyn y pethau hyn? Yn syml, trwy ffydd. Neu yng ngeiriau'r awdur, 'Cymryd Duw ar ei air a gweithredu ar sail hynny.' Esbonia fod tri cham i ffydd: yn gyntaf mae'n rhaid cael gwybodaeth; yna rhaid cael eich argyhoeddi bod yr wybodaeth yn wir; yn olaf rhaid ymddiried yn yr wybodaeth honno.

A beth yw canlyniad y ffydd hon? Llawenydd. Llawenydd ein bod ni wedi cael maddeuant am bob pechod, a sicrwydd o fywyd tragwyddol gyda Duw. Llawnhawn!

Y cwestiwn y mae angen i bob un ohonom ei ofyn wrth ddarllen y llyfr hwn yw, a yw'r pethau hyn yn wir yn fy mywyd i? Ydw i wedi profi'r maddeuant hwn? Oes gen i'r llawenydd hwn? Ydw i ymhlith y rhai fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddieuog? Yng nghroes Crist y gorfoleddaf!

Holi Hwn a Hon

Meleri

Sut ddest ti'n Gristion?

Cefais fy magu yn mynd i'r Ysgol Sul a'r cwrdd, yn canu am Daniel yn ffau'r llewod ac adeiladu'r deml; yna, wrth i mi dyfu'n hŷn, yn clywed am angen pawb i ddod i berthynas bersonol â Duw ac mai trwy Iesu Grist yr oedd gwneud hynny. Gwyddwn nad oedd gen i'r fath berthynas â Duw ac felly nad oeddwn i'n Gristion, ond yn llwyddo i wthio hynny i gefn fy meddwl.

Pan oeddwn i'n ddeg mlwydd oed, es i am wythnos i wersyll y Mudiad Efengylaidd, lle'r oedd pregethu clir iawn o'r Beibl ar gyfer plant fy oed i. Un noson, tra oeddwn yn gorwedd yn fy ngwely, des i dan argyhoeddiad o'm pechod. Hynny yw, daeth y pethau yr oeddwn yn eu 'gwybod', wedi clywed amdanynt yn y capel gartre ac yn y cyfarfodydd dyddiol yn y gwersyll, am berffeithrwydd a glendid Duw, am y colli tymer a'r dweud celwydd a'r gogwydd y tu mewn i mi i wneud y pethau hynny – hynny yw, fy mhechod – daeth y cwbl yn fyw iawn i mi'r noson honno. Gwyddwn nad oeddwn

i'n iawn gerbron Duw ac mai'r gosb gyfiawn am fy mhechod oedd uffern, ond gwyddwn hefyd fod Iesu Grist wedi marw fel iawn ar y groes a thrwy ofyn iddo Ef ddod i mewn i'm bywyd, drwy ras Duw, y byddwn i'n gallu cael fy nerbyn ganddo. Gwyddwn hynny i gyd mewn ffordd wahanol y noson honno.

Yn syml, fe weddiais ar Dduw a theimlo rhyddhad a sicrwydd fod Iesu Grist wedi cymryd fy mhechodau i. Ers hynny, mae gwrando ar bregethau wedi bod yn brofiad gwahanol – yn gyfle i glywed mwy am fy Arglwydd. Mae Duw wedi bod yn ffyddlon iawn wrth i mi fynd drwy'r ysgol a'r coleg a dod yma i Gaerdydd i weithio.

Beth yw dy swydd?

Rwy'n olygydd yn y Cynulliad ers tair blynedd a hanner. Un canlyniad i hyn yw fy mod i'n ystyried Bae Caerdydd mewn ffordd wahanol i'r rhan fwyaf o drigolion Caerdydd. I mi, mae'n lle i fynd i weithio, nid hamddena. Rwyf wedi bod yn gwneud ymdrech i fynd allan i gael cinio dros yr haf ar yr adegau prin

Perkins



pan fod yr haul wedi tywynnu, a bob tro rwy'n cerdded o gwmpas, rwy'n cael rhyw fath o sioc ei fod yn lle mor braf.

Sut byddi di'n treulio dy amser hamdden?

Rwy'n dwlu ar fynd i'r sinema ac mae gen i garden tanysgrifio sy'n golygu fy mod i'n gallu gweld faint bynnag o ffilmiau ag ydw i eisiau am un taliad rhesymol y mis; bob yn hyn a hyn rwy'n pigo i mewn ar b'nawn Sadwrn ac yn yfed coffi tra'n gwyllo rhyw ffilm. Rwy'n hoffi sawl *genre*, o *musicals*

i *thrillers*, ffilmiau mawr, twp a swnlyd a phethau mwy esoterig. Y ffilm orau rwyf i wedi ei gweld hyd yn hyn eleni yw *Wall-E*, stori ffug-wyddonol ffantastig am robot a adawyd i lanhau y Ddaear pan ymadawodd pobl o achos y llygredd. Cymeriadau grêt, delweddu sy'n dwyn yr anadl, a stori ddigrif-ddwys yn gyrru'r cyfan.

Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth rywun sydd ddim yn Gristion?

Mae heddiw, nawr, yn gyfle. Mae uffern a nefoedd yn bodoli, ac o achos ein pechod, uffern yw ein haeddiant. Bu farw fy mam-gu yn ddiweddar, ac roedd hi'n Gristion. Roedd gwybod i sicrwydd ei bod hi wedi mynd at yr Arglwydd yr oedd hi'n ei garu yn achos llawenydd yng nghanol lot o dristwch naturiol.

Ar ddiwrnod yr angladd, meddyliais am angladdau eraill yr wyf wedi bod ynddynt dros y blynyddoedd – ac am fy angladd i fy hun. Sut brofiad fydd dy angladd di? Sut fath o ddagrau fydd yn disgyn ar y diwrnod hwnnw? Pan gladdwyd fy mam-gu, fe ganon ni emyn sy'n wahoddiad i bawb, o ba oedran bynnag, i ddod at Iesu Grist. Trwy weddio arno, a dibynnu'n unig ar ei farwolaeth Ef, mae dod i bethynas gyda Duw.

Cofio

Noel Gibbard

Gofidiai John Newton yn fawr oherwydd ei anghofrwydd. Anghofiai hyd yn oed y digwyddiadau amlwg yn ei fywyd. Diflannodd y cwbl fel niwl y bore. Ond daeth tro ar fyd, a daw hynny i'r amlwg wrth fwrw golwg dros ei fywyd.

Digwyddodd dau beth o bwys yn gynnar yn ei fywyd yn Llundain. Pan oedd yn saith mlwydd oed, collodd John ei fam weddigar, a phedair blynedd yn ddiweddarach aeth i'r môr ar long yr oedd ei dad yn gapten arni. Bwriad y tad oedd danfon ei fab i Jamaica, ond cyn mynd ymwelodd â pherthnasau, ac yn y cartref cyfarfu â Mary Catlett, merch dair ar ddeg mlwydd oed, a sythiodd mewn cariad â hi. Ni fedrai feddwl am fynd i Jamaica mwyach, ond oherwydd gwrthwynebiad y tad i'r berthynas, ac amharodrwydd John i dderbyn trefniadau ei dad, penderfynodd John ffoi. Treuliodd flynyddoedd ar wahanol longau, a byw bywyd afradlon, ymhlith morwyr garw. Yn fuan, ildiodd John yntau i'w ddymuniadau a'i chwantau, a throi i fod yn gablwr a gwrthryfelwr digwilydd yn erbyn pob safon foesol.

Mentrodd adael un llong heb ganiatâd y capten, a phan ddaliwyd ef cafodd ei chwipio nes ei fod yn gwaedu. Dro arall ymunodd ag un o longau y gaethfasnach, a bod yn rhan o'r gweithgarwch erchyll hwnnw. Canlyniad hyn oedd iddo ef ei hun gael ei werthu fel caethwas yn Affrica, a gosododd ei feistr ef o dan ofal negroes greulon. Ei fwyd oedd y briwsion oddi ar fwrdd ei feistres, a phan oedd yn wael am gyfnod, bu bron i John farw. Yn rhagluniaethol, llwyddodd rywsut i gael llong i ddianc o Affrica, a hwylio miloedd o filltiroedd cyn cyrraedd Lloegr. Yn ystod yr hwylio bu'r llong mewn trafferthion mawr. Roedd un storm mor enbyd, fel y credai pawb yn byddent yn suddo unrhyw foment. Trodd John at y Capten a bloeddio, 'Byddeddi'r Arglwydd gael trugaredd arnom'. Ni fedrai gredu ei eiriau ei hun. Dyma'r cablwr yn gofyn am drugaredd. Gwaeddodd am faddeuant ac fe'i cafodd. Arbedwyd y llong, a newidiwyd bywyd John Newton yn gyfan gwbl.

Ni fedrai neb amau'r newid. Priododd John Newton a Mary Catlett. Ni phallodd ei chariad at

John yn ystod ei fynyddoedd gwyllt ar y môr. Gwnaeth ei chariad, a gweddïau ei fam, ei ddilyn o le i le. Paratôdd ar gyfer bod yn weinidog yn Eglwys Loegr, a dylanwadodd ei weinidogaeth ar nifer helaeth o bobl (un o'i ffrindiau oedd Thomas Charles pan oedd yntau yn Lloegr, ac wedyn yn y Bala). Sylweddolodd beth oedd erchylltra'r gaethfasnach (ar ôl bod yn Gristion am beth amser), a chysylltu â William Wilberforce. Bu'n gynghorydd ysbrydol trwy ei lythrau, a chyfoethogodd emynyddiaeth yr Eglwys â'i emynau. Mynegiant o'i brofiad yw'r emyn, 'Amazing grace! How sweet the sound, That saved a wretch like me'.

A'r cyfan oherwydd iddo weiddi am drugaredd, ac i Dduw ei ateb.

Yn ei ymwybyddiaeth o'i ddyled i ras Duw, ysgrifennodd John Newton adnod ar wal ei stydi, 'Cofia i ti fod yn gaethwas, ac i Dduw dy waredu'. Roedd yn cofio. Yn ei henaint cyfarfu John Newton ag William Jay, Caerfaddon. Gofidiai oherwydd bod ei gof yn pallu, ond medrai John ychwanegu hefyd; 'Rwy'n cofio dau beth, fy mod i yn bechadur mawr, a bod Iesu Grist yn Waredwr mawr'. Pwy bynnag sy'n credu a phrofi hyn, ni fydd rhaid iddo anghofio, am byth.

Llyfrau Newydd i'r Hosan 'Dolig

Chains of Grace – Hunangofiant Peter Jeffery

Hanes trôedigaeth a gwaith dyn cyffredin a ddywedodd, 'Dydw i ddim yn bwriadu dod yn Gristion – byth'. Dechreuodd ei weinidogaeth yng Nghymru, ac erbyn hyn cafodd gyfle i bregethu dros y byd. £6.00, DayOne

The King has Come – James Montgomery Boice

Bwriad y llyfr hwn yw eich cael i ryfeddu eto ar yr hen hanesion yr ydym mor gyfarwydd â'u clywed adeg y Nadolig. Gobeithio y bydd hanes y Nadolig yn dod yn berthnasol i chi wrth ddarllen y llyfr. £7.99, Christian Focus

Being Born Again – Gary Brady

Beth yw ystyr y term 'cael eich aileni'? Mewn rhannau o'r byd mae llawer iawn o bobl yn honni eu bod yn Gristnogion sydd wedi eu haileni neu yn 'born-again Christians'. Mae'r awdur yn mynd trwy'r broses gam wrth gam. Dyma help i chi ddeall ystyr y term, p'un ai rydych chi'n brofiadol ohono ai peidio. £7.49, Evangelical Press

Newyddion

Edrych yn ôl dros wyliâu'r haf

Cynhaliwyd cinio yn y capel ar ddydd Sul cynta'r Eisteddfod, a braf oedd gallu croesawu cynifer o ffrindiau atom. Parhawn i weddio am y dystiolaeth a gafwyd ar y maes ac yn y Gorlan.

Llongyfarchiadau i Ifan Lewis a Siôn Elis ar eu canlyniadau Lefel-A, a Gerwyn Lewis ar ei ganlyniadau TGAU. Mae Ifan bellach wedi dechrau ar gwrs Sylfaen Celf yma yn UWIC, a Siôn wedi dechrau cwrs Rheolaeth Chwaraeon ym Mhrifysgol Birmingham. Pob hwyl i'r ddau ar ddechrau'r cyfnod newydd hwn yn eu bywydau.

Tymor newydd, dechreuadau newydd

Dau arall yn yr eglwys sy'n dechrau ar gyfnod newydd yn eu bywyd yw Phil Ellis a Beryl Williams, y ddau wedi ymddeol ar ôl blynyddoedd lawer yn dysgu. Dymunwn lawenydd a bendith iddynt.

Ymunodd llawer yn yr eglwys ag Andy a Catrin Gardiner i rannu eu llawenydd ar

ddiwrnod eu priodas ganol mis Medi. Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu yn y fflat yn y Rhath. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Tom King a Nerys Williams ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Dymunwn y gorau iddynt wrth baratoi i briodi.

Llongyfarchiadau mawr i Hywel Williams ar dderbyn swydd yn Archifdy Cenedlaethol Seland Newydd.

Dymuniadau gorau i Luned Evans wrth iddi setlo'n ôl i fywyd ysgol ar ôl misoedd o salwch. Cynhaliodd y teulu barti yn y capel yn ddiweddar i ddiolch i ffrindiau am eu cefnogaeth ac i ddiolch i Dduw am ateb gweddïau drosti. Ynystod y prynhawn cyflwynwyd siec am yn agos at £4000 i Latch, elusen i blant Cymru sy'n dioddef o gancr, sef yr arian a gasglwyd yn sgil trip cerdded Llion o gwmpas arfordir Ynys Môn.

Achlysur llawen arall yn yr eglwys yn ddiweddar oedd derbyn Meleri Perkins yn aelod. Croeso Meleri! (Cewch wybod popeth amdani ar dudalen 14).

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 6.00 - 7.00pm

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.30pm

Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am

Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am

Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Tachwedd</i>	2	<i>Trystan Hallam</i>
	9	<i>Gwynn Williams</i>
	16	<i>Gwynn Williams</i>
	23	<i>Gwynn Williams / Trystan Hallam</i>
	30	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Rhagfyr</i>	7	<i>Gwynn Williams</i>
	14	<i>Oedfa Carolau / Trystan Hallam</i>
	21	<i>Gwynn Williams / Cyfarfod anffurfiol</i>
	25	<i>Gwasanaeth Bore Nadolig</i>
	28	<i>Noel Gibbard</i>

Cynhelir oedfa nos ychwanegol ar yr ail Sul bob mis yn yr Eglwys Newydd (ar Dachwedd 9 a Rhagfyr 14), am 6.30 yn Eglwys Tabernacl

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org